

Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol - ymyriadau nad ydynt ar y map

Cymru gyfan

- 1 Canolfannau teithio cynaliadwy.
- 2 Gwella'r wybodaeth a ddarperir am deithio.
- 3 Troi at ganllawiau Dewisiadau Doethach: sicrhau mwy o deithio iach a chynaliadwy.
- 4 Cryfhau swyddogaeth cynllunio trafndiaeth.
- 5 Cynllunio trafndiaeth yn rhan o ddatblygu cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- 6 Cyflwyno Cerdyn 'Hawl i Gludiant' Cymreig ar gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd (erbyn 2014).
- 7 Creu cyfres o gyfnewidfeydd moddol strategol (erbyn 2014).
- 8 Datblygu nifer mwy o lwybrau cerdded a beicio didraffig a llwybrau ar wahân ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.
- 9 Cynnal y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, er mwyn datblygu cyfleoedd cerdded a beicio mwy diogel.
- 10 Nodi cyfleoedd i adfer rheilffyrdd nas defnyddir i'r rhwydwaith trafndiaeth.
- 11 Cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio.
- 12 Parhau i gynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer cynlluniau cerdded a beicio.
- 13 Sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus i Gymru (erbyn 2011).
- 14 Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth drafndiaeth effeithiol (erbyn 2011).
- 15 Cynyddu nifer y Partneriaethau Ansawdd a'r Contractau Ansawdd Bysiau (erbyn 2014).
- 16 Gwella'r profiad a gaiff y cwsmer ar wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.
- 17 Cydweithio ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol yn cael ei ddarparu'n effeithiol.
- 18 Cydweithio â'r sector Trafnidiaeth Gymunedol i alluogi gwell integreiddio (erbyn 2014).
- 19 Cefnogi gwasanaethau trafndiaeth arloesol.
- 20 Paratoi canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar orfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud.
- 21 Datblygu fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol (erbyn 2010).
- 22 Cael gwared â stepiau uchel rhwng platformau a threnau.
- 23 Y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd (NSIP+) (erbyn 2014).
- 24 Ailwampio a buddsoddi mewn cerbydau (erbyn 2014).
- 25 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer beiciau ar wasanaethau trên newydd a phresennol.
- 26 Parhau i gydweithio â'r Adran Drafndiaeth ar y rhaglen i drydanu Prif Reilffordd y Great Western.
- 27 Ymchwilio i gyfleoedd i ailagor rheilffyrdd nas defnyddir.
- 28 Cynnal ein hymrwymiad i ganiatáu i bobl hŷn ac anabl deithio am ddim ar wasanaethau bysiau lleol.
- 29 Cyhoeddi cynlluniau i ehangu a gwella ansawdd TrawsCambria (erbyn 2011).
- 30 Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas.
- 31 Helpu i gyflawni argymhellion yr adolygiad o wasanaethau cludo cleifion nad ydynt yn achosion brys.
- 32 Targedu buddsoddiadau mewn ffordd a fydd yn cynnal y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- 33 Cynhyrchu Strategaethau Rheoli Llwybrau ar gyfer pob coridor (erbyn 2011).
- 34 Sicrhau bod y rhwydwaith cefnffyrdd mor ddibynadwy a diogel â phosibl, a bod amserau'r siwrneiau'n dda.
- 35 Adolygu dosbarthiad y rhwydwaith cefnffyrdd (erbyn 2012).
- 36 Cyhoeddi canllawiau ar y terfynau cyflymder mwyaf priodol y tu allan i gyfleusterau fel ysgolion.
- 37 Datblygu cynlluniau ar gyfer cyflwyno terfynau cyflymder newidiol a orfodir ar draws y rhwydwaith o gefnffyrdd lle y gallant wella diogelwch, dibynadwyedd ac amserau siwrneiau.
- 38 Gwelliannau o ran darparu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel.
- 39 Parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU ar ddatblygu'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd newydd.
- 40 Mynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd mewn mannau lle mae'r cyfraddau anafusion a marwolaethau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, neu lle mae problem i grwpiau agored i niwed penodol.
- 41 Lleihau nifer y marwolaethau ymhlith gyrrwyr beiciau modur, drwy gymysgedd o addysg, gorfodi a darparu amgylchedd mwy diogel.
- 42 Cyflwyno systemau rheoli traffig gweithredol ar ein ffyrdd prysuraf i wella diogelwch a llif y traffig (erbyn 2014).
- 43 Sicrhau bod ein gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith yn gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel i ddefnyddwyr.
- 44 Annog defnyddio mwy o barthau 20mya mewn ardaloedd preswyl.
- 45 Parhau â'n gwasanaeth swyddogion traffig peilot, ar yr A55 a'r M4.
- 46 Cyflwyno deddfwriaeth newydd i wneud cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy diogel.
- 47 Arwain a chydgylltu'r sector trafndiaeth cludo nwyddau er mwyn rhoi Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru ar waith.
- 48 Cynnal rhaglen arferion gorau cludo nwyddau, gan gynnwys rhaglen arferion gorau ar gyfer faniau.
- 49 Cyflwyno rhaglen cyngor trafndiaeth, gan gynnwys Adolygiadau Fflydoedd Gwyrdd, i leihau allyriadau.
- 50 Darparu Grantiau Cyfleusterau Cludo Nwyddau er mwyn cefnogi trosglwyddo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.
- 51 Datblygu canolfan cyfuno nwyddau, ar sail peilot (erbyn 2014).
- 52 Gofynion o ran sicrhau ymagwedd fwy cynaliadwy at gefnffyrdd newydd a phresennol a'r rhwydwaith traffyrdd.
- 53 Gofynion o dan ddeddfwriaeth Ewrop a'r DU o ran sŵn, ansawdd aer, llygredd dŵr a phriddoedd.
- 54 Adolygu cadernid seilwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd.
- 55 Parhau â'r gwaith i ddiogelu, cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, tirluniau/trefluniau, a'r ddarpariaeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.
- 79 Parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael ei chysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd cyflym sy'n cael ei ddatblygu.
- 81 Cyflwyno terfynau cyflymder newidiol i rannau o'r rhwydwaith er mwyn rheoli tagfeydd a gwella diogelwch, erbyn 2010.
- 92 Integreiddio datblygiad y llwybrau beicio yn ne-ddwyrain Cymru sy'n cael cymorth o gronfeydd Cydgyfeirio'r UE.